**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

| Eitem / Item | Dyddiad / Date |
|---|---|
| | 09-02-2026 |

| Teitl / Title | Er / For |
|---|---|
| Asesu Llesiant Lleol | *Trafodaeth a Phenderfyniad* |

Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues

**Cefndir**

Bydd aelodau'n ymwybodol ei fod yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru gyflawni dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal Asesiad o Lesiant Lleol i fod yn sail i'r Cynllun Llesiant Lleol 5 mlynedd. Rhaid i'r Asesiad nesaf o Lesiant Lleol gael ei gyhoeddi erbyn mis Mai2027.

Cyhoeddwyd yr Asesiad diwethaf yn 2022 a mabwysiadwyd ffordd o weithio rhanbarthol rhwng Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Er enghraifft, gweithredwyd Fframwaith Methodoleg ar y Cyd i sicrhau cysondeb o ran y dull o gynllunio, paratoi, casglu a dadansoddi data, ac ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori.

Roedd adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar asesiad diwethaf Ceredigion yn hynod gadarnhaol, gan ei ddisgrifio fel "asesiad llesiant cryf, cynhwysfawr".

Yn dilyn y penderfyniad i uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion a'r bwriad i gynhyrchu asesiad ar y cyd, bydd angen dull gwahanol y tro hwn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ffordd ymlaen arfaethedig ac yn cyflwyno cyfres o benderfyniadau allweddol sydd eu hangen er mwyn i'r gwaith ar yr asesiad ddechrau.

**Y ffordd ymlaen arfaethedig**

Yn dilyn trafodaethau gyda phartneriaid yn Sir Gaerfyrddin, cynigir ein bod yn defnyddio'r dull canlynol o gynhyrchu'r Asesiad y tro hwn:

1. Byddwn yn cynhyrchu **asesiad ar y cyd sy'n** cwmpasu Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
2. Bydd y Cynghorau Sir yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn **arwain** wrth lunio'r Asesiad.
3. Byddwn yn dylunio ac yn mabwysiadu **Fframwaith Methodoleg** ar gyfer llunio'r asesiad gan ddefnyddio'r model 'cyfnodau bywyd'. (Defnyddiwyd y model cyfnodau bywyd yn yr asesiad blaenorol yn Sir

Gaerfyrddin a Cheredigion. Y cyfnodau bywyd yw Dechrau Newydd, Plentyndod, Ieuenctid, Oedolion a Heneiddio'n Dda).

4. Byddwn yn mabwysiadu **Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori** i ddatblygu a rheoli'r Arolwg Llesiant Rhanbarthol a'r ymgyrch ymgysylltu. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yn y modd y bwriedir cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid.

5. Byddwn yn mabwysiadu'r 24 MSOA yn Sir Gaerfyrddin a'r 9 MSOA yng Ngheredigion fel **daearyddiaeth yr Ardaloedd Cymunedol**. Defnyddiwyd y rhain y tro diwethaf a byddant yn sicrhau cysondeb a sicrhau y bydd y rhan fwyaf o'r data craidd ar gael ar y lefel ddaearyddol hon).

6. Yn ogystal â bod yn rhanbarth Gorllewin Cymru, mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn rhan o ranbarth Bargen Ddinesig Bae Abertawe tra bod Ceredigion hefyd yn gweithio ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru gyda Phowys ar fentrau fel Bargen Twf Canolbarth Cymru. Felly, byddwn **yn sefydlu cysylltiad** â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Phowys i adlewyrchu'r gwaith ar draws yr ardaloedd ychwanegol hyn.

7. Byddwn yn gofyn am **arweinydd data** ar gyfer pob sefydliad BGC a all ddarparu data a/neu gydweithio fel rhan o'r gwaith ysgrifennu yn y Grŵp Awduron.

8. Byddwn yn gofyn am **arweinydd ymgysylltu** ar gyfer pob sefydliad BGC a all helpu i ddatblygu'r Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori gan hefyd fod yn rhan o'r Grŵp Ymgysylltu Rhanbarthol (ar gyfer y sefydliadau hynny sydd ag arweinydd ymgysylltu).

9. Byddwn yn sefydlu **Gweithgor** i lunio'r Fframwaith Methodoleg ac arwain ar gynhyrchu'r Asesiad.

10. Byddwn yn sefydlu **Grŵp Ymgysylltu ac Ymgynghori** i ddylunio a rhedeg yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol a'r ymgyrch ymgysylltu.

11. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) gynnal Asesiad Anghenion Poblogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cynhelir elfennau o gamau datblygu'r Asesiad o Lesiant Lleol ac Asesiad Anghenion Poblogaeth ochr yn ochr. Felly, byddwn yn sefydlu **trefniadau gwaith gyda'r RPB** i osgoi dyblygu, gwella capasiti a defnydd adnoddau, a nodi blaenoriaethau cydlynol.

12. Mae'r amserlen **enghreifftiol** (Atodiad 1) yn nodi'r cerrig milltir allweddol dros y deuddeg mis nesaf wrth gyflawni'r Asesiad.

Wrth ymgymryd â'r ymgysylltiad, byddwn yn cynnal gweithdai rhyngweithiol gyda grwpiau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn dechrau'r ymgysylltiad yn gynnar, casglu data a phrofi cwestiynau ymgysylltu cyn i'r ymgyrch ymgysylltu lawn ddechrau.

Credir y bydd y dull hwn yn cynhyrchu Asesiad o Lesiant Lleol sy'n tynnu sylw at nifer o themâu llesiant allweddol i fod yn sail i'r Cynllun Llesiant Lleol nesaf sydd i'w gyhoeddi yn 2028.

| |
|---|
| |
| Goblygiadau Ariannol / Financial Implications |
| Amherthnasol |
| Argymhellion / Recommendations |
| **R1.** Bod y BGC yn cymeradwyo'r dull o gynhyrchu'r Asesiad Llesiant Lleol fel yr amlinellir ym mhwyntiau bwled 1-11 yr adroddiad hwn. |
| Atodiadau / Attachments |
| • Atodiad 1 – Crynodeb o'r Llinell Amser ar gyfer creu Asesiad Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin a Cheredigion |
| Swyddog Adrodd / Reporting Officer |
| |

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r Llinell Amser ar gyfer creu Asesiad Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin a Cheredigion**

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r Llinell Amser ar gyfer creu Asesiad Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin a Cheredigion**

# Llinell Amser

Asesiad Llesiant Lleol

